# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 4 Hydref 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

# 161(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**

Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr effaith ar gyllid trafnidiaeth yng Nghymru yn sgil yr adroddiadau bod Llywodraeth y DU wedi penderfynu rhoi'r gorau i linell gangen prosiect HS2 rhwng Birmingham a Manceinion?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai – Yr Hawl i Gael Tai Digonol

(60 munud)

**NDM8365** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 'Yr Hawl i Gael Tai Digonol', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Gorffennaf 2023.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Medi 2023.

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith – Cyfoeth Naturiol Cymru: Gwaith Craffu Blynyddol 2022-23

(60 munud)

**NDM8367** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: 'Cyfoeth Naturiol Cymru - Gwaith Craffu Blynyddol 2022-23', a osodwyd ar 19 Mai 2023.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Gorffennaf 2023.

**Dogfennau Ategol**

Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

## 7 Dadl Plaid Cymru – Gwasanaethau bws

(60 munud)

**NDM8369** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu bod gwasanaethau bws yn hanfodol i gysylltedd cymunedau Cymru ac i blant sy'n teithio i'r ysgol.

2. Yn nodi bod y Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr wedi rhybuddio am doriadau pellach i ddarpariaeth gwasanaethau bysiau Cymru heb warantau pendant ynghylch cyllid hirdymor gan Lywodraeth Cymru.

3. Yn gresynu bod bron i 10 y cant o lwybrau bysiau Cymru wedi cael eu dileu dros yr haf oherwydd bod cyllid y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau wedi dod i ben.

4. Yn gresynu y bydd diwedd Grant y Rhaglen Datblygu Gwledig yn arwain at gau gwasanaeth fflecsi Bwcabus yn llwyr ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro erbyn 31 Hydref ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau ei fod yn cael ei adfer.

5. Yn credu y gellid gosod rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus Cymru ar sail gynaliadwy pe bai Cymru'n cael ei chyfran deg o gyllid HS2.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu gwasanaethau bysiau ledled Cymru, buddsoddi ynddynt a'u hehangu.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu pwyntiau 2, 3 a 4 a rhoi yn eu lle:

Yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru, erbyn diwedd 23/24, wedi darparu gwerth dros £200m o gyllid brys i'r diwydiant bysiau.

Yn nodi bod methiant Llywodraeth y DU i gadw at ei haddewid, sef na fyddem mewn sefyllfa waeth yn sgil Brexit, wedi arwain awdurdodau lleol at derfynu'r gwasanaeth Bwcabws.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8348** Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Bai rhieni a proffil awtistiaeth osgoi galw patholegol

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 10 Hydref 2023